



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

1.

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER,
MEHEFIN Y 7^{fed} 2023**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Cais cynllunio ar gyfer parc cychod Clwb Hwyllo Llanfairfechan – bydd aelodau o'r pwyllgor yn bresennol yn y cyfarfod

5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ebrill y 26^{ain} 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL 1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth am swyddi gwag fel Cynghorwyr a chymeradwyo cyfetholiad yn Ward Lafan ac etholiad yn Ward Pandy
7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r broses archwilio fewnol ar gyfer 2022/23
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r model newydd o Reolau Sefydlog ar gyfer 2023
9. Derbyn a chymeradwyo cyfraniad tuag at Bwll Padlo Llanfairfechan 2023/24
10. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Mai 2023
11. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Mai 2023

Ymuno â'r cyfarfod Zoom

<https://us02web.zoom.us/j/83817373311?pwd=Wm1HV3IrbUVsbTJVejlNcktqQnJDUT09>

**Cyfeirnod y Cyfarfod: 838 1737 3311
Cyfrinair: 470265**

Taliadau i'w cyflwyno
1. Kirsty Merrell Daily Trwydded TENS Ebrill £21.00
2. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Ebrill 2023 £4700 (sylwch ar y cynnydd yn unol â chytundeb yr archebiant)
3. Taliadau HMRC ar gyfer Ebrill, Mai a Mehefin £2260.00
4. Llogi Neuadd Gymunedol y Dref ar gyfer marchnadoedd Mai a Mehefin £120.00
5. Jayne Neal reim Llyfr lluniau Vista Print £17.22
6. CBS Conwy Sgipiau Cymunedol £720.00
7. Menter Iaith Cyfieithu cofnodion Ebrill a Mai £312.62
8. Viking – rholiau mawr o dyweli sychu dwylo ar gyfer y tŷ bach cyhoeddus £152.28
Taliadau ôl-ddyddiedig
1. British Gas Taliad y Maes Chwarae Aml-ddefnydd £50.35
2. Amazon Edau Neilon ar gyfer yr arddangosfeydd yn y ffenestri £7.49
3. Amazon weiren bysgota ar gyfer yr arddangosfeydd yn y ffenestri £5.48

12. Trafod materion cynllunio

0/50789 Tyddyn Angharad Uchaf Ffordd y Dyffryn / Valley Road Llanfairfechan LL33 0ES Estyniad dau lawr i ochr y tŷ annedd

0/50721 1 Fron Pant Stryd y Llyn / Pool Street Llanfairfechan LL33 0TW Estyniad arfaethedig gyda chyntedd agored cyfagos ac addasu strwythur y to ochr / isaf

Datblygiad arfaethedig yn 11 Gorwel a'r tir tua'r dwyrain yn Nhyn Drain, Llanfairfechan, LL33 0DS

13. Derbyn gohebiaeth

14. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Cyfarfod Gwasanaethau Cynaliadwy
2. Cyfarfod Grŵp y Maer

3. Cyfarfod clirio Neuadd Pendalar
15. Derbyn materion brys i'w trafod

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Llanfairfechan Dydd Mercher, Mehefin y 7^{fed} 2023

Yn Bresennol: Cadeirydd: Maer Laura Fielding; Cyng. Leena Farhat (ar Zoom); Cyng. Andrew Hinchliff; Cyng. Chris Jones; Cyng. Nia Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Elgan Owen; Cyng. Preben Vangberg (ar Zoom).

Clerc y Dref Jayne Neal

- 1. Estynodd y Cadeirydd, Maer Laura Fielding groeso i bawb i'r cyfarfod**
- 2. DERBYN YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB (DLLL 1972 ATODLEN 12)**
Cyng. Penny Andow; Cyng. Gareth Jones; Cyng. Christine Roberts
- 3. DERBYN DATGANIADAU O DDIDDORDEB – (DATGELU DIDDORDEB PERSONOL, NEU RAGFARNOL)**
Cyng. Laura Fielding – Gohebiaeth Eitem 4 – ni wnaeth hi gyfrannu at y drafodaeth
- 4. DERBYN SYLWADAU AC YMHOLIADAU GAN Y CYHOEDD.**

CAIS CYNLLUNIO AR GYFER PARC CYCHOD CLWB HWYLIO LLANFAIRFECHAN – BYDD AELODAU O'R PWYLLGOR YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD

Symudwyd eitem 'Datblygiad arfaethedig yn 11 Gorwel ac i'r tir tua'r dwyrain yn Nhyn Drain, Llanfairfechan, LL33 ODS' ar yr agenda i'w drafod yn gynharach gan fod sawl preswlydd yn bresennol gyda diddordeb arbennig yn y mater hwnnw.

Sylwadau Preswlydd 1:

- a. Mae'r ffordd fynediad tuag at ac ar hyd Gorwel yn anaddas ac yn berygl ar gyfer y traffig adeiladu a'r preswylwyr newydd. Mae'r ffordd eisoes wedi'i chulhau yn sgil nifer o geir sydd wedi gorfod parcio yno. Mae yna ddamweiniau wedi digwydd yn barod.**
- b. Draenio – mae nifer o'r preswylwyr wedi wynebu trafferthion gyda dŵr wyneb gormodol yn deillio o'r caeau o dan sylw. Sut fyddai'r tanciau cyfyngu arfaethedig yn mynd i'r afael â hyn?**
- c. Bu problem llygod mawr ers i'r tir dan sylw gael ei aflonyddu ar gyfer cynnal arolygon. Bydd y broblem yn cynyddu yn ystod y gwaith adeiladu.**
- d. Bu sawl gollyngiad dŵr o'r prif bibellau dŵr yng Ngorwel ynghyd â rhwystrau yn y carthffosydd. Ni all y ffyrdd hyn ymdopi gyda thraffig adeiladu trwm yn teithio drostyn nhw.**
- e. Os ydy'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo, pwy fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i'r wal cerrig sych y tu cefn i'n heiddo neu unrhyw ddifrod strwythurol i'n tai yn sgil cloddio a dirgryniadau. Bydd gormod o sŵn a llwch a phridd yn ystod y gwaith adeiladu ac fe fydd y tai yn llai deniadol i brynwyr.**
- f. Ni all y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill ymdopi ar hyn o bryd beth bynnag.**
- g. Bydd yn rhaid adfer yr Hawl Tramwy Cyhoeddus y tu ôl i'r tai ar ôl cwblhau'r prosiect os yw'n mynd rhagddo ac mae angen sicrwydd y bydd hyn yn digwydd.**

Sylwadau preswlydd 2: Mae wedi byw yng Ngorwel ers 25 mlynedd a bu problem gyda'r draeniau nad oedd y cyngor wedi'u mabwysiadu. Roedd yn rhaid i'r preswylwyr dalu tuag at waith sylweddol ac fe ofynnodd preswlydd a ydy'r rhain wedi'u mabwysiadu erbyn hyn. Soniwyd eu bod wedi'u mabwysiadu erbyn hyn ynghyd â'r holl wasanaethau eraill. Fodd bynnag, mae dŵr yn draenio ar Gorwel o Gae America ac ni allwn ni ymdopi gyda rhagor.

Sylwadau preswlydd 3: Bu cytundeb yn y gorffennol na fyddai unrhyw adeilad yn y dref dros 600 troedfedd – ydy'r cytundeb yn dal yn berthnasol ai pheidio?

Sylwadau preswlydd 4: Ymholiad ynghylch pam na ellir defnyddio safleoedd tir llwyd yn y dref i gychwyn er enghraifft Yr Heath. Soniwyd bod problemau penodol ynghlwm â'r Heath ac mae CBS Conwy wrthi'n dwyn i ystyriaeth gwahanol opsiynau. Dydy'r Cyngor Tref heb dderbyn unrhyw wybodaeth hyd yma.

Sylwadau preswlydd 5:

- a. Mae'r cyflwyniad i'r ddogfen gynllunio yn datgan fod prinder tai, fodd bynnag wrth edrych ar-lein mae 33 o dai ar werth yn Llanfairfechan am ystod o wahanol brisiau – ai'r broblem mewn gwirionedd ydy na all pobl fforddio i brynu tai?**
- b. Ni all y seilwaith ymdopi â'r gwaith. Byddai'n effeithio ar ysgolion ac mae'r Feddygfa dan ei sang eisoes. Er enghraifft, rydw i wedi gorfod aros am 3 mis i gael prawf gwaed, a gafodd ei ganslo 4 gwaith gan nad oedd y nyrs ar gael. Mae angen aros am 3 wythnos i dderbyn ffisio; byddai ychwanegu 200 arall o gleifion at y rhestr ond yn gwaethgu'r sefyllfa.**
- c. Fel cyn-weithiwr proffesiynol yn y diwydiant, gallan nhw ddweud nad yw'r system garthffosiaeth yng Ngorwel yn addas i'r diben. Fe wyddom fod y system wedi cyrraedd y capasiti eisoes ac mae'r problemau**

cyson sydd wedi'u crybwyll yn dangos fod hyn yn wir. Cafodd Dŵr Cymru eu gorfodi i'w fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r system garthffosiaeth yn Llanfairfechan wedi'i orlwytho – mae'r gwaith carthffosiaeth ger Madryn yn methu'n gyson gan arwain at lygredd. Mae system ddŵr pen uchaf y pentref yn methu'n gyson, ac mae negeseuon testun misol wedi'u derbyn sy'n profi hyn.

- d. Pryderon ynghylch trydan gan fod mannau gwefru EV ynghlwm â'r cais cynllunio – bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol eto ar system sydd wedi'i orlwytho eisoes.
- e. Y prif bryder ynghylch y cynnig penodol hwn ydy mynediad. Mae Ffyrdd Valley a Mount yn ffyrdd un trac ac mae'r mynediad i Gorwel yn un trac i bob diben oherwydd parcio. Mae yna broblemau eisoes gyda pharcio a mynediad ym mhen uchaf y dref.
- f. Yn olaf, fe grybwyllwyd yr angen am dai a thai fforddiadwy. Ni fydd y tai arfaethedig yn fforddiadwy i deuluoedd yn y dref a'u plant.

Awgrymwyd y byddai'r tai fforddiadwy sydd wedi'u crybwyll yn y cynllun ond yn 10% yn rhatach a dydy hyn ddim yn ddigon isel. Soniodd y Cadeirydd y byddai'r Cyngor Tref yn llunio datganiad ar gyfer yr ymgynghoriad yn ein cyfarfod ar Fehefin yr 28^{ain}. Byddwn yn mynd ati i gasglu gwybodaeth dystiolaethol yn y cyfamser a byddwn yn rhannu'r datganiad yn gyhoeddus maes o law. Os oes angen, caiff ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth eu cyflwyno er mwyn derbyn gwybodaeth ac mae Cynghorydd Tref wedi cyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth ynghylch y nifer o eiddo gwag eisoes. Gellir anfon e-bost gyda gwybodaeth am y prosiect at y preswylwyr os ydyn nhw'n cysylltu gyda Chlerc y Dref ar jayne@llanfairfechan.net. Anfonwyd e-bost at yr adran gynllunio i holi ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol a sut byddai'r prosiect adeiladu hwn yn effeithio ar y cynlluniau hynny.

Sylwadau preswlydd 5: Soniwyd eto fod tri safle tir llwyd sylweddol y dylid eu defnyddio cyn mynd ati i adeiladu ar fannau gwyrdd. Mae'n bosibl nad ydy'r rhain yn ddeniadol i adeiladwyr ond fe ddylid eu defnyddio'n gyntaf.

Soniodd Cynghorydd Tref os caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei weithredu, bydd budd cymunedol o ran yr ysgol ac yna fe ellir adeiladu lletyau priodol megis fflatiau i bobl hŷn ar hen safle'r ysgol.


Clerc i gysylltu gyda Dŵr Cymru a'r tîm Cynllun Datblygu Lleol yng Nghonwy gan ddefnyddio cais Rhyddid Gwybodaeth os oes angen. Clerc y Dref i egluro a fydd yr ysgol yn dal ynghlwm â'r Cynllun Datblygu Lleol ai pheidio. Soniwyd fod system bwyntiau wedi'i weithredu ar gyfer yr ysgol newydd – mae'n bwysig fod y tîm Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig eu sylwadau am hyn.

Cyflwynodd Lance Jones, Ysgrifennydd Clwb Hwyllo Llanfairfechan, wybodaeth am yr estyniad i'r parc cychod.

Mae llain o dir wedi'i nodi ond ni fydd CBS Conwy yn cynnig prydles yn sgil gwrthwynebiad gan breswlydd ar sail cyfmod cyfyngol ar y tir yn yr ardal, oherwydd pryderon ynghylch costau cyfreithiol a allai godi yn y dyfodol. Aeth y clwb ati ar y cyd â CBS Conwy i ddod o hyd i lain newydd o dir heb unrhyw gyfmodau cyfyngol arni.



Cynllun A



Cynllun B

Mae Cynllun A yn bellach o'r tai ond fe allai greu gofod gwag oherwydd byddai'r ardal laswellt yn cael ei heffeithio'n fwy. Mae'n effeithio mwy ar waith cynnal a chadw'r llain wyrdd.

Mae Cynllun B yn cynnig llain o dir diffiniadwy ac mae'n hawdd i'w gynnal a chadw a'i ddefnyddio. Mae'n nes at y tai ac mae'n bosibl y bydd pryderon ynghylch sŵn hwylraffau'n taro yn erbyn ei gilydd. Rhoddwyd sicrwydd y bydd pob cwch gyda mastiau a hwylraffau yn cael eu cadw yn y brif ardal. Bydd yr estyniad yn fodd i'r clwb ehangu ei waith gyda phobl ifanc drwy gynnig cychod bach o'r enw 'Toppers', sydd ddim llawer mwy na hwylfwrdd arferol, ac mae modd eu gosod mewn rheseli a'u cadw'n isel.

Gallai cost a symrwydd yr opsiwn ymddangos yn fwy ffafriol.

Gofynnodd Cynghorydd Tref os oes modd parhau gyda'r safle gwreiddiol – cynllun dwy haen o bosibl?

Rhannodd CBS Conwy y byddan nhw mewn perygl o wrthwynebu prydles ar y safle gwreiddiol gan y gallai preswylwyr y safle yn y dyfodol ddyfynnu'r cyfmod a chymryd camau cyfreithiol.

Mae yna 22 o aelodau ieuencid a mwy sydd ar y rhestr aros i ymuno felly mae'r clwb yn awyddus i fynd rhagddi gyda'r gwaith a manteisio ar y diddordeb hwn. Bydd y clwb hwyllo yn cydymffurfio gydag unrhyw ofynion

bioamrywiaeth gan Gyngor Conwy. Bydd mynediad i'r safle o'r pen Gogleddol a bydd ffensys a giatiau priodol o amgylch y safle.

Ymholiad gan breswyllydd: Oni ddylid ymgynghori gyda phreswylwyr ar y Promenâd ynghylch eu cynllun dewisol nhw?

Rhodddwyd sicrwydd mai'r cam nesaf fyddai ymgynghori gyda'r preswylwyr. Roedd y clwb yn dymuno derbyn safbwynt gwrthrychol am y cynllun cyn cynnal ymgynghoriad yn ei gylch felly dyma pam eu bod nhw wedi cysylltu gyda'r Cyngor Tref yn gyntaf.

Soniwyd fod y Clwb Hwyllo yn gwneud gwaith gwych gyda'r bobl ifanc yn Llanfairfechan ac roedd y diwrnod agored yn ystod y penwythnos yn ardderchog.

Bu i'r aelodau fwrw pleidlais ac fe gytunodd y Cyngor Tref yn unfrydol mai Cynllun B ydy'r opsiwn mwyaf ffafriol.

Cynigwyd gan y Cyng. N Jones Eiliwyd gan y Cyng. A Rhys Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

5. DERBYN A CHYMERADWYO COFNODION EBRILL Y 26AIN A'R RHESTR WEITHREDU GYFREDOL (DLLL1972 ATODLEN 12)

Dosbarthwyd y cofnodion ym mhecyn y cyfarfod eisoes ac fe'u nodwyd wedi'u darllen. Dim materion yn codi o'r cofnodion.

Cynigwyd gan y Cyng. E Owen Eiliwyd gan y Cyng. C Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council Action List Date: 7th June 2023			
	Item:	Date:	Progress
1	Potholes in Mill Road	17/04/2023	Under observation by CCBC
2	Nant y Pand y car park	update	info by email
3	Paddling Pool	update	work started no details have been sent re; contribution as yet
4	Promenade car park & flood protection	update	information received
5	Bus stop damage Y Bont west	update	work is due to be done under our maintenance payment
6	Benches project	update	progress made; the item will be added to next agenda
7	Station Road Garden	update	progress made; the item will be added to next agenda
8	MUGA West Shore	on hold	grant to be considered for resurfacing but MUGA is in use again now
9	Petanque court	update	work completed TC owes for materials
10	Audit	agenda	on agenda.
11	Kickstarter Community Plan	update	awaiting reports from Discover Llanfairfechan meeting
12	Flags project	on hold	awaiting info from sional
13	Ward Vacancy Lafan	agenda	on agenda co-option to be completed
14	Ward Vacancy Pand y	agenda	on agenda co-option process to be considered
15	Big Green Week	update	lots of activities planned by Mayor and community
16	Llanfest	22/07/2023	Llan TC will have a stall with questionnaire and fake tattoos
17	Police information	update	two matters - cannabis leaf and hanging basket

2. Maes Parcio Nant y Pand y Mae CBS Conwy wedi anfon eu hymddiheuriadau am yr oedi o ran y broses gyfreithiol o drosglwyddo tir yr oedden nhw ar ddeall oedd ar waith eisoes. Gan ddwyn i ystyriaeth trefniadau cyfredol y broses ceisiadau cynllunio, fe fyddan nhw'n rhannu unrhyw ddiweddariadau maen nhw'n eu derbyn am y broses gyda'r Cyngor Tref.

Caiff y tir ger pont Pand y ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref a'i throsi i fod yn faes parcio i breswylwyr a fyddai'n caniatáu rheoleiddio ac fe gaiff llefydd parcio ffurfiol eu pennu. Mae tri char wedi'u gadael yn y maes parcio ar hyn o bryd ac mae'r rhain wedi'u hadrodd.

4 Maes Parcio'r Promenâd Erbyn hyn mae CBS Conwy wedi derbyn cadarnhad o gyllid ar gyfer pwyntiau gwefru ceir. Doedd dim gwybodaeth bellach gan y tîm Llifogydd am gyllid gan Lywodraeth Cymru ond disgwylir y bydd y gwaith adfer i'r maes parcio ar waith yn ystod hydref 2023 gan ei fod wedi'i gyflwyno fel achos busnes yng Nghyngor Conwy.

5 Adroddwyd am ddifrod i loches fws ar Y Bont tua'r gorllewin ac mae Cyngor Conwy yn aros am rannau i'w atgyweirio. Soniwyd y byddai rhwyll newydd yn fwy effeithiol.

7 Gardd Ffordd yr Orsaf – Bydd y gwaith yn mynd rhagddo yn 2023. Mae trwydded wedi'i lunio a chaiff ei llofnodi'n fuan. At hyn, caiff cais grant ei gyflwyno i Cadwch Gymru'n Daclus. Mae hwn yn fenter newydd sbon, felly rydym bob amser yn awyddus i ddenu gwirfoddolwyr newydd – mae'r grŵp yn cwrdd yng Ngerddi Fictoria am 6yh nos lau am gyfarfod anffurfiol.

11 Cynllun Kickstarter – mae wedi'i gytuno mewn egwyddor y gallai Darganfod Llanfairfechan gyfuno gyda'r prosiect Partneriaeth Cynllunio Gymunedol.

15 Wythnos Werdd Fawr - Bydd sawl gweithgaredd yn ystod yr wythnos hon. Dydd Sadwrn, Mehefin y 10^{fed} sesiwn celf i'r teulu Llais y Lle yn y Pafiliwn am 1yp, dydd Sul, Mehefin yr 11^{eg} Gerddi Agored yn Ffordd y Dyffryn a sesiwn Cyfnewid Potiau Planhigion a stondin blanhigion 2yp tan 5yp, dydd Gwener, Mehefin yr 16eg Cyfnewidfa Dillad Llanfairfechan yn y Neuadd Gymunedol o 7yh tan 9.30yh. Bydd sawl stondin yn y digwyddiad hwn gan gynnwys stondin Trwsio, bagiau ac ati wedi'u creu allan o hen hwyliau, gemwaith wedi'u hailgylchu, crepes Gefeillio Trefi a stondin cyfnewid llyfrau.

16 Llanfest Gorffennaf yr 22^{ain} – Mae'n bosibl y bydd Darganfod Llanfairfechan yn rhannu stondin a bydd gennym ni holiadur Gwasanaethau Cynaliadwy a thatws ffug i blant.

17 Gwybodaeth yr Heddlu – Mae basged grog wedi'i difrodi a'i golli yn sgil ymddygiad meddwol. Mae'r preswlydd wedi'u hannog i hysbysu'r heddlu am y digwyddiad. Mae hyn wedi'i drafod gyda Swyddog Cefnogi Cymuned Heddlu Gogledd Cymru sydd hefyd wedi annog preswylwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ddifrod troseddol yn yr ardal. Dywedwyd wrth Glerc y Dref am gysylltu gyda'r gwasanaethau rheoleiddiol am y pryderon ynghylch ymddygiad meddwol.

Penderfynwyd derbyn a nodi

6. DERBYN GWYBODAETH AM SWYDDI GWAG FEL CYNGHORWYR A CHYMERADWYO CYFETHOLIAD YN WARD LAFAN AC ETHOLIAD YN WARD PANDY

Cynhaliwyd y broses ethol 14 diwrnod ar gyfer y swydd wag yn Ward Lafan ond ni chafodd unrhyw etholiad ei alw gan unrhyw breswylwyr. Yna fe roddwyd proses Cyfethol ar waith ar gyfer y swydd wag ac fe hysbysebodd Clerc y Dref y swydd ar-lein ac yn ffenest y Neuadd Gymunedol. At hyn fe anfonodd e-byst yn gofyn am CV a llythyr atodol gan bum preswlydd oedd wedi dangos diddordeb. Dim ond un a dderbyniwyd yn ôl felly mater i'r Cyngor Tref oedd derbyn y cais hwn neu benderfynu anfon cais am gyfetholiad eto er mwyn denu sylw pellach. Cytunwyd yn unfrydol y byddai'r Cyngor Tref yn cyfethol Robert Jewell fel Cyngorydd Tref Lafan. Soniodd y Cyng. Robert Jewell y byddai'n teimlo'n llawer mwy priodol i sefyll fel Cyngorydd Tref yn y Ward maen nhw'n byw ynddi. Bydd y Datganiad Derbyn ar Fehefin yr 28^{ain}.

Cynhaliwyd y broses ethol 14 diwrnod ar gyfer y swydd wag yn Ward Pandi, gellir hysbysebu'r broses gyfethol am yr 14 diwrnod nesaf ac yna caiff proses cyfethol ei gweithredu. Bu inni dderbyn datganiad o ddiddordeb gan un unigolyn a oedd wedi penderfynu peidio â sefyll ar ran Lafan gan eu bod yn dymuno sefyll ar ran Pandi sef eu ward gartref. Gan hynny, rydym yn gobeithio y bydd y rôl wedi'i llenwi'n fuan.

Cynigwyd gan y Cyng. L Fielding Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

7. DERBYN GWYBODAETH A CHYMERADWYO'R BROSES ARCHWILIO FEWNOL AR GYFER 2022/23

Mae JDH Hughes wedi derbyn yr holl wybodaeth erbyn hyn ac mae yna ambell i ymholiad cryno sydd angen eu hateb. Mae'r Clerc yn gobeithio y bydd yr archwiliad mewnlol ar gael i'w gadarnhau yn y cyfarfod ar Fehefin yr 28^{ain}. Penderfynwyd derbyn a nodi

8. DERBYN GWYBODAETH A CHYMERADWYO'R MODEL RHEOLAU SEFYDLOG NEWYDD AR GYFER 2023

Roedd y rhain wedi'u dosbarthu dros e-bost eisoes. Mae'r rheolau sefydlog wedi'u paratoi gan y Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol felly maen nhw wedi'u nodi'n addas i'r diben. Soniwyd bod pwynt sy'n datgan fod modd cynnig rhybudd byrrach ar gyfer cyfarfodydd. Dydy hyn ddim yn peri pryder gan fod rhybudd o dridiau'n cael ei gynnig bob amser ac mae dolen yr agenda wedi'i chyflwyno ar Facebook er mwyn i'r preswylwyr fod yn ymwybodol o'r hyn y byddwn ni'n ei drafod.

Cynigwyd gan y Cyng. N Jones Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

9. DERBYN A CHYMERADWYO CYFRANIAD TUAG AT BWLL PADLO LLANFAIRFECHAN 2023/24

Ni dderbyniwyd e-bost terfynol ond mae arwydd y byddai CBS Conwy yn derbyn ein cynnig gwreiddiol o £500. Gofynnodd Clerc y Dref os ydyn nhw'n gofyn yn ffurfiol am £500, oes modd cytuno ar hyn dros e-bost? Eglurwyd bod y cyllid yn gyfraniad tuag at waith cynnal a chadw ac felly ni ddelir yr arian drosodd os na chaiff ei wario. Mae'r gwaith ar y gweill ar hyn o bryd a'r gobaith ydy y bydd y pwll yn ail-agor ar gyfer gwyliau'r haf.

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

10. DERBYN A CHYMERADWYO ADRODDIADAU ARIANNOL MAI 2023

Roedd yr adroddiad ariannol a'r taflenni cysoni ar gael yn y cyfarfod. Dim ond newydd fynd allan o'r cyfrif mae'r arian ar gyfer y goleuadau Nadolig – doedd dim modd ei dalu gyda throsglwyddiad banc gan ei fod yn uwch na'r uchafswm o £10,000. Mae'r siec ond newydd ei glirio. Soniwyd bod CBS Conwy yn gofyn i'r Cyngor Tref gymryd yr awenau dros sawl gwasanaeth ac felly dyma pam fod y Cyngor Tref yn paratoi Holiadur Gwasanaethau Cynaliadwy

i gael syniad o'r hyn y mae preswylwyr yn ei ystyried yn flaenoriaeth. Eglurwyd bod yn rhaid prynu'r drwydded TENS yn fisol ar gyfer y marchnadoedd ac mae'n rhaid iddyn nhw gael eu had-dalu gan nad oes gan CBS Conwy system anfonebu ar gyfer hyn. Codir tâ archeb sefydlog am y Maes Chwarae Aml-ddefnydd ac mae'r gost yn anghynladwy. Bydd angen gosod goleuadau LED yn lle'r rhai presennol er mwyn inni allu eu defnyddio.

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. A N Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

11. DERBYN A CHYMERADWYO'R TALIADAU CYFREDOL AR GYFER MAI 2023

Caiff y taliad am y drwydded TENS ei had-dalu i Glerc y Dref ac nid y Swyddog Prosiect gan nad ydyn nhw yn y swyddfa ar hyn o bryd.

Cynigwyd gan y Cyng. E Owen Eiliwyd gan y Cyng. C Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

12. TRAFOD MATERION CYNLLUNIO

0/50789 Tyddyn Angharad Uchaf Ffordd y Dyffryn / Valley Road Llanfairfechan LL33 0ES Estyniad dau lawr i ochr y tŷ annedd – dim sylwadau

0/50721 1 Fron Pant Stryd y Llyn / Pool Street Llanfairfechan LL33 0TW Estyniad arfaethedig gyda chyntedd agored cyfagos ac addasu strwythur y to ochr / isaf - dim sylwadau

Datblygiad arfaethedig yn 11 Gorwel ac i'r tir tua'r dwyrain yn Nhyn Drain, Llanfairfechan, LL33 0DS – roedd hyn wedi'i symud ar yr agenda i'w drafod yn gynharach.

13. DERBYN GOHEBIAETH

2. Mynwentydd – Facebook Erw Feirol a llythyr Rhandir Hedd. Pryderon ynghylch cyflwr y mynwentydd ac ymateb CBS Conwy. Roedd y Clerc wedi'i chopio mewn i'r ohebiaeth gyda Chyngor Conwy ynghylch Rhandir Hedd ac fe ddarllenodd y llythyrau gerbron yr aelodau. Mae preswilydd yn anodlon gydag ymateb CBS Conwy. Clerc i e-bostio Swyddog Mynwentydd Conwy i drafod y mater.

3. E-bost i Jacob Williams gan breswilydd gyda chopi i'r Cyngor Tref – Buom yn trafod Benarth ddiwethaf ym mis Ionawr ac roeddwn i'n meddwl tybed a oes gennych chi unrhyw ddiweddariad ynghylch yr adolygiad Barnwrol lle wnaethoch chi sôn y byddwch chi'n ei gynnig yn dilyn y caniatâd cyflym dros ben am gartref parhaol i blant?

Yna fe aeth y preswilydd ymlaen i sôn am ddigwyddiadau sy'n peri pryder o amgylch y safle, gan gynnwys bod yn dyst i ddifrod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiol a pharcio o amgylch yr eiddo. Mae'r rhain i gyd yn bryderon a fynegwyd cyn y caniatâd newid cynllunio. Clerc i e-bostio'r preswylwyr gyda gwybodaeth am bolisi cwynion y cwmni, CBS Conwy ac Arolygiaeth Gofal Cymru i rannu pryderon. Soniwyd mai'r rhain oedd y pryderon y bu i'r Cyngor Tref eu rhannu cyn y newidiadau.

4. Parcio ar Ffordd yr Orsaf

E-bost gan breswilydd yn sôn am drafferthion gyda pharcio y tu allan i Bogs and Basins. Mae'r fan yn parcio'r tu allan i'r siop am oriau maith heb lwytho neu ddadlwytho. Mae'r fan hefyd yn parcio yn y lle parcio islaw'r siop ymhell y tu hwnt i'r amser a ganiateir. Mae'r preswilydd wedi hysbysu Adran Gorfodaeth Conwy.

Mae pryderon difrifol ynghylch damweiniau posibl. Clerc i gysylltu gyda Gwasanaethau Rheoleiddiol CBS Conwy.

5. Plac coffa ar y fainc

Mae preswilydd wedi gofyn am osod plac coffa ar fainc Morfa Madryn. Soniwyd fod hyn o dan awdurdodaeth Cyngor Sir Gwynedd felly Warden Sir Gwynedd fydd yn gwneud penderfyniad ynghylch hyn. Os na chaniateir hyn, yna fe allwn ni gynnig y gofod olaf ar y fainc ar Y Cob.

14. DERBYN ADRODDIADAU O GYFARFODYDD

1. CYFARFOD GWASANAETHAU CYNALIADWY – mae hyn wedi'i symud i Fehefin y 27ain.
2. CYFARFOD GRŴP Y MAER – bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf y 3ydd ac rydym yn croesawu syniadau ar gyfer prosiectau yn 2023/24
3. CYFARFOD DARGANFOD LLANFAIRFECHAN – mae cynlluniau ar gyfer nwyddau marchnata newydd mewn lle a byddwn yn cytuno ar y lluniau ar gyfer y calendr yn y cyfarfod nesaf. Mae'r grŵp wedi cadarnhau na fydd angen iddyn nhw hawlio grant ar gyfer eleni gan fod ganddyn nhw arian yn weddill yn y banc.
4. CYFARFOD CLIRIO NEUADD PENDALAR – mae'r neuadd wedi'i chlirio erbyn hyn. Diolch yn fawr i'r holl wirfoddolwyr a'r cynghorwyr a wnaeth helpu ar y diwrnod. Mae CBS Conwy am helpu drwy symud y sbwriel a'r byrddau tenis bwrdd. Mae'r holl eitemau defnyddiol wedi'u symud i'r Neuadd Gymunedol ac mae rhestr eiddo wedi'i llunio fel bod modd dychwelyd yr eitemau os yw'n ail-agor. Mae Neuadd Pendalar yn bodloni gofynion yswiriant cartrefi gwag Conwy erbyn hyn felly mae'n fwy diogel. Mae Pwyllgor Neuadd Pendalar yn ystyried cychwyn Grŵp Cyfeillion Pen Dalar er mwyn parhau gyda'r gwaith cymunedol yn yr ardal.

5. **PWYLLGOR DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL** – cawsom sicrwydd y bydd y byrddau a’r pebyll yn cael eu cludo’n effeithiol. Bydd cyflenwyr Marchnad Bwyd a Chrefftiau Llanfairfechan yn cynnal stondinau yn Llanfest ym mis Gorffennaf. Mae stondinau cymunedol yn rhad ac am ddim ac mae stondinau masnachol yn £10 drwy gadw lle gyda Ceri Jones drwy’r pwyllgor.
6. **Y DIWEDDARAF AM SEFYDLIAD YR EGLWYS** - Cyngor gan arwerthwyr tai lleol i arwerthu Sefydliad yr Eglwys (Gradd 2* rhestredig) a gwerthu Neuadd yr Eglwys (Gradd 2 rhestredig) drwy broses ceisio caeedig am dai. Fodd bynnag, mae cymhlethdod gan fod y teulu wedi galw am gymorth gan arwerthwyr tai o Lundain. Cytunwyd ei fod yn adeilad arbennig ond mae angen sicrhau cymorth priodol a grŵp o bobl i gymryd yr awenau drosto. Mae’n anodd cyfiawnhau canolfan gymunedol arall yn y dref gyda phoblogaeth o ddim ond ychydig dros 3600 ond byddai cyllid ar gael pe bai grŵp cadarn o bobl yn ymgymryd â’r gwaith. Yr anhawster yw dangos angen amlwg am adeilad cymunedol arall.

15. DERBYN MATERION BRYN I’W TRAFOD

1. Estynnwyd llongyfarchiadau i’r pwyllgor Gefeillio Trefi am ddigwyddiad gefeillio llwyddiannus dros ben ac i’r Maer Laura Fielding am araith wych. Soniwyd hefyd am y llyfrgelloedd Cymunedol gan eu bod nhw, ar y cyd â’r llyfrgelloedd cymunedol eraill, wedi llwyddo i ennill grant sylweddol i ddiweddarau eu trefn llywodraethu a helpu gyda marchnata a datblygu’r prosiectau. Mae’n gyfle arbennig i lyfrgell Llanfairfechan gan eu bod yn arwain ar y gwaith. Mae’r cais llyfrgell yn sicrhau y bydd y llyfrgell leol mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol. Soniodd y Cyng. Elgan Owen y byddai’n rhoi’r gorau i fod yn rhan o bwyllgor y llyfrgell gan y bydd gwrthdaro buddiannau yn sgil gwaith gyda CVSC sydd wedi derbyn cytundeb i weithio ar y prosiect sydd wedi’i ariannu.
2. Lloches Fws ym Mhen Dalar. Mae preswylwyr yn gofyn a oes modd gosod lloches. Trafodwyd hyn ac fe ofynnwyd i’r Clerc am gysylltu. Clerc i e-bostio Cyngor Conwy i ofyn iddyn nhw. Soniwyd bod angen diweddarau’r arwydd ger y bont droed gan fod y lloches fws wedi’i thynnu o ben arall y bont. Clerc i holi oes modd tynnu’r arwydd.
3. Twll yn y ffordd ger Pen y Bryn Cyngorydd wedi rhoi gwybod i Gyngor Conwy
4. Ceir wedi’u gadael – Mae’r car yn y gilfach ar Ffordd Aber yno ers rhai dyddiau. Caiff ei wirio am MOT a threth ac fe gaiff ei adrodd amdano os oes angen. Mae Cerbyd Gwersylla VW wedi’i adael o dan y bont ar Shore Road East ers pythefnos erbyn hyn. Clerc i siarad gyda Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu i weld oes unrhyw bryderon gan yr heddlu.
5. Ymholiad gan breswilydd ynghylch tai bach Ffordd yr Orsaf Os nad oes modd eu hagor oherwydd y dirywiad, a oes modd gosod arwyddion er mwyn cyfeirio pobl at dai bach cyhoeddus eraill. Bu sawl digwyddiad o bobl yn defnyddio’r ardal er bod y tai bach wedi’u cloi ar hyn o bryd. Clerc i ddarparu poster. Mae amheuaeth ynghylch dyfodol y tai cyhoeddus ac fe hoffai CBS Conwy drosglwyddo’r asedau i’r Cyngor Tref. Awgrymodd y Panel Adolygu y dylai Cyngorau Tref gymryd yr awenau dros wasanaethau’n ymwneud â lleoedd a dylai’r awdurdodau lleol barhau i fod yn gyfrifol dros wasanaethau sy’n ymwneud â phobl. Dyma pam fod Cyngor Tref Llanfairfechan wedi penderfynu cynnal holiadur i breswylwyr er mwyn canfod pa wasanaethau yr hoffai’r preswylwyr eu blaenoriaethu.
6. Lloches ger y bont droed ar y Promenâd Mae CBS Conwy wedi ymateb i ddweud nad oes ganddyn nhw baent. Awgrymwyd y gallai fod gan Crest baent am bris gostyngol. Maer i gysylltu gyda Chyngor Conwy i ofyn am y dimensiynau a faint o baent sydd ei angen er mwyn inni allu prynu’r paent a chwblhau’r gwaith cyn yr haf. Soniwyd mai atgyweiriad dros dro ydy hyn ac rydym yn disgwyl y bydd y lloches wedi’i chynnwys unwaith y bydd y prosiect amddiffyn rhag llifogydd ar waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:30yh

Bydd y cyfarfod nesaf am 7yh ar nos Fercher, Mehefin yr 28^{ain}